

CAPEL SALEM, TREGANNA
19-08-2020



Gweler hefyd yr atodiad “Salem COVID19/Trefn Gweithredu” sy’n manylu ar y mesurau gweithredu sydd wedi eu cyflwyno er mwyn cwrdd â chanllawiau Eglwys Bresbyteraidd Cymru “Paratoi i addoli gyda’n gilydd yn ein hadeiladau” (drafft 08.08.2020). Yn ogystal paratowyd gynllun Paratoadau a ddefnyddir gan y Blaenoriaid i weithredu ar y canllawiau.

RHIF	ELFEN	CAMAU	Ie/Na		PWY / PRYD
			✓	✗	
Paratoi i ail-agor adeilad			✓	✗	
1.	Penderfynu ar ddyddiad	i. Ymgynghori yn yr eglwys ii. Ymgynghori â’r ofalaeth? iii. Ystyried eglwysi eraill yn y cylch iv. Adrodd i’r Henaduriaeth	✓ ✓ ✓	✗ ✗	Hysbysu drwy GOLEUFA (cylchlythyr yr Ofalaeth) o’r bwriad i ail-agor; a defnyddio cyfryngau cymdeithasol, gwefan a llythyr pellach i gadarnhau’r bwriad. Cynhaliwyd Cyfarfod Blaenoriaid drwy Zoom ar 3ydd o Awst i benderfynu’n derfynol ar Fedi’r 6ed fel dyddiad fyddai’n ymarferol i addoli ar foreau Sul. Gweler uchod; ond hefyd derbyniwyd adborth ar lafar drwy ein Gweinidog o drafodaeth gyda swyddogion Bethel Rhiwbeina. Hysbyswyd yr Henaduriaeth.
2.	Cyflwr yr adeilad	i. A yw’r adeilad wedi ei awyru, ac a fydd hyn yn bosibl yn ystod digwyddiadau?	✓		Mae’r adeilad wedi bod yn wag ers y cyfnod clo. Bydd pob drws yn cael ei agor dyddiadau cyn ail agor; a sicrhau y bydd drwsau yn parhau ar agor gydol y gwasanaethau.
		ii. A wnaed archwiliad o’r sustem trydan?	✓		Mae tystysgrif gyfredol yn ei le.
		iii. A wnaed archwiliad o’r sustem gwresogi?	✓		Bydd Watford Heating sydd â chytundeb cynnal a chadw’r system yn archwilio ar 28.08.20
		iv. Lle bo’n berthnasol, a wnaed rhagofalon i ddiogelu rhag clefyd y lleng-filwyr?	✓		Bu ymweliad wythnosol â’r adeilad, gan agor pob tap a thynnu dŵr o’r tai bach

CAPEL SALEM, TREGANNA
19-08-2020



		v. A yw'r adeilad yn lân, ac a oes modd ei lanhau'n gyson yn ôl y galw?	✓		Ni fu unrhyw ddefnydd o'r adeilad, mae'n lân o heintiau ac eithrio llwch. Bydd ein glanhawraig yn glanhau cyn y cyfarfod cyntaf a wedyn yn wythnosol gyda sylwa arbennig i ddrysau a "touch points" eraill
Gosod yr adeilad					
3.	Diogelu pellter cymdeithasol	i. A oes angen ystyried capasati yr adeilad ar gyfer eich digwyddiadau arferol gan gynnwys oedfaon teulu ayb?	✓		Oes. Oherwydd y seddi parhaol/traddodiadol, mesurwyd y pellter rhwng pob sedd (gan ystyried unigolion, teuluoedd neu grwpiau mewn bybl). Bydd y capasati (gan gynnwys y galeri) yn cael ei leihau i 60 o bobl.
		ii. Ystyried capasati eich adeilad ar gyfer 'digwyddiadau bywyd', e.e. angladd, priodas, bedydd	✓		Gan fod capasati'r adeilad yn fwy na'r mwyafswm o 30 o bobl; mae lle digonol i weithredu o fewn y canllawiau presennol. Bydd pob achlysur o'r fath yn cynnwys asesiad risg a chanllawiau arbennig i'r sawl fydd yn rhan o ddigwyddiadau o'r fath.
		iii. Cau seddau/corau	✓		Mae cynllun manwl wedi ei greu gyda phob sedd yn dynodi lle gellir eistedd a lle na chaniateir hynny. (gweler copi o'r cynllun fel atodiad i'r asesiad hwn)
		iv. Symud seddau o'r ystafell (lle bo hynny yn berthnasol) i arbed pobl i'w defnyddio	✓		Gweler pwynt iii. Mae seddi Salem yn rhai na allwn eu symud.
		v. Sustem unffordd, neu ragofalon eraill i ddiogelu pellter cymdeithasol	✓		Cynhyrchwyd cyfres o arwyddion arbennig fydd i'w gosod tu allan ac oddi mewn i'r adeilad gan nodi system unffordd, diogelu pellter cymdeithasol ayb
		vi. Arwyddion / Marciadau / Sgriniau	✓		Gweler pwynt (v) uchod
		vii. Stiwardiaid	✓		Trefnir y bydd 5 swyddog ar ddyletswydd bob wythnos gyda chyfrifoldeb o gofrestru ac arwain y gynulleidfa i'w seddi

CAPEL SALEM, TREGANNA
19-08-2020



		viii. A yw'r rhagofalon yn debygol o wahaniaethu yn erbyn unrhyw grŵp o bobl?	✓		Bydd y drefn newydd o addoli yn cael ei gyfleu i'n haelodau ar ffurf llythyr/canllaw yn ogystal ag ar ffurf fideo. Mae'r canllawiau yn gofyn i'r sawl sydd ag anghenion arbennig ee cadeiriau olwyn, i'n rhaghysbysu o flaen llaw er mwyn bod trefniadau yn eu lle.
4.	Hylendid	i. Darpariaeth o 'gel' gwrth-feirws	✓		Bydd bwrdd penodol wedi ei osod yn y cyntedd fydd yn cynnwys arwydd/gwybodaeth hylendid, gel a masgiau.
		ii. Cyfleuster i olchi dwylo; papur sychu dwylo; bin	✓		Byddwn wedi tynnu'r ffiws o'r sychwr dwylo yn y tai bach; ac yn cynnig papur sychu dwylo a bin priodol.
		iii. Symud llyfrau / taflenni / teganau meddal ayb	✓		Bydd llyfrau emynau, Beiblau a thafenni yn cael eu storio ac ni fyddant ar gael i'w defnyddio gan y gynulleidfa.
		iv. Cau cegin	✓		Mae arwyddion "Dim Mynediad" yn cael eu gosod ar ddrysau'r cegin
		v. Defnydd o doiledau, gyda darpariaeth golchi dwylo a chlwt i unigolion sychu arwynebau fel tapiau, drysau ayb	✓		Cyflwynir system "un person ar y tro" yn ardal y merched a'r dynion. Bydd arwyddion arbennig wedi eu gosod i nodi hyn; yn ogystal â chanllawiau sychu arwynebau.
		vi. Darpariaeth o fasiai?	✓		Gweler pwynt (i) uchod.
Cynnal oedfa / digwyddiad mewn adeilad					
5.	Tracio ac Orlhain	i. Sicrhau gweithdrefn i gymryd enw a rhif ffôn mynychwyr i bob digwyddiad	✓		Bydd ein cylchlythyr yn nodi'n glir bod disgwyl i bob aelod gofrestru o flaen llaw gan gadarnhau eu henwau a'u rhif ffôn.

CAPEL SALEM, TREGANNA
19-08-2020



		ii. Sicrhau nad yw'r wybodaeth yn cael ei ddal ond i'r pwrpas hwn, a bod y wybodaeth yn cael ei diddymu 21 diwrnod wedi'r digwyddiad	✓		Bydd ein cofrestrydd yn cadarnhau'r trefniadau yma'n wythnosol gyda'r gynulleidfa wrth iddyn nhw gyrraedd y cyntedd.
6.	Hysbysu / Cyngori	i. Darparu gwybodaeth am y digwyddiad i'r aelodau/cyhoedd	✓		Nodwyd eisoes ein bwriad o gylchreded y canllawiau yn ogystal â chreu fideo fydd ar ein gwefan a chyfryngau cymdeithasol.
		ii. Os yn briodol, gwneud trefniadau i ganiatáu i bobl fynychu os tybir y bydd mwy na capasati yn debyg o gyrraedd.	✓		Mae capasati'r adeilad o gwmpas 60 person. Ond os bydd mwy o unigolion/cyplau, yna mae'n bosib y bydd rhaid lleihau'r swm i tua 40. Bydd ein canllawiau yn egluro bod uchafswm a bydd gwasanaeth fyw arlein yn parhau i fod ar gael.
		iii. Cyngori unigolion bregus, yn arbennig y rhai sy'n cysgodi, i beidio mynychu	✓		Mae hyn wedi ei nodi yn ein canllawiau; bydd disgwyl i bob unigolyn fod yn ymwybodol o'i risg personol.
7.	Trefnu'r oedfa / digwyddiad	i. Sicrhau Gweinidog / Pregethwr / Arweinydd, a diogelu naill ai fod pellter o 4 metr rhwng yr arweinydd a'r gynulleidfa, neu osod sgrin rhwng yr arweinydd a'r gynulleidfa	✓		Rydym wedi clustnodi 2 ardal i'r Gweinidog/ Arweinydd - y Pulpud a'r Sedd Fawr. Ni fydd personau eraill yn eistedd yn y Sedd Fawr; a chedwir y rhes flaen yn y gynulleidfa'n rhydd er mwyn sicrhau pellter o 4 metr.

CAPEL SALEM, TREGANNA
19-08-2020



		ii. Hysbysu'r Arweinydd a'r gynulleidfa o'r angen i ddod â Beibl ayb eu hunain.	✓		Drwy gydol mis Medi dim ond ein Gweinidog fydd yn arwain y gwasanaethau. Byddwn yn parhau i adolygu ac ymateb i ganllawiau gan gynnwys cadarnhau trefniadau gyda chyfranwyr eraill. Mae'n fwriad i wneud defnydd pellach o'r sgriniau sydd wedi eu gosod i osgoi gorfod cario llyfrau'n ddiangen.
		iii. Diogelu fod unrhyw ddeunydd sy'n cael ei gludo i'r adeilad yn cael ei gludo oddi yno gan unigolion.	✓		Gweler (ii) uchod
		iv. Trefnu offer i hyrwyddo addoliad, e.e. taflunydd, system i chwarae cerddoriaeth ayb;	✓		Mae cyfarpar technegol Salem wedi ei osod yn barhaol (sgriniau, desg sain, camera, cluniadur). Bydd unrhyw gyfarpar ychwanegol i gynnal gwasanaethau Zoom ayb hefyd yn rhan o'r strwythur parhaol.
		v. Pe cynhelir mwy nag un digwyddiad o fewn 72 awr, sicrhau glanhau pob arwynebedd, yn cynnwys seddau, cadeiriau, byrddau, microffonau, desg sain, pulpud, darllenfa a dolenni drysau.	✓		Nid oes bwriad am y tro i gynnal mwy nag un digwyddiad wythnosol; ond bydd glanweithdra'n allweddol os penderfynir yn wahanol.

CAPEL SALEM, TREGANNA
19-08-2020



8.	Casgliad	<p>i. Annog aelodau i gyfrannu yn rheolaidd drwy drosglwyddiadau banc</p> <p>ii. Darparu basged ger y fynedfa/allanfa, a sicrhau fod y rhai sy'n delio â'r rhoddion yn cymryd camau, megis gwisgo menig ayb wrth gyfrif a bancio arian i ddiogelu eu hunain ag eraill.</p>	<p>✓</p> <p>✓</p>	<p>Cynhyrchid rhifynnau arbennig o gylchlythyr yr Ofalaeth yn ystod y cyfnod clo. Mae'r rhifynnau yma'n cyfeirio'n benodol at gyfrannu drwy siec neu drosglwyddiad banc.</p> <p>Mae'n fwriad i osod blwch casglu yn y cyntedd (mynedfa i'r adeilad) yn ogystal ag wrth ddrws y Festri (allanfa o'r adeilad) fel gall ein cynulleidfa cyfrannu ar ddechrau neu ar ddiwedd yr oedfa. Bydd trefn o roi'r arian o'r neilltu a'u gasglu i baratoi i fynd i'r banc gannol wythnos.</p>
9.	Cymundeb	<p>i. Sicrhau fod yr unigolion sy'n paratoi'r elfennau yn gwneud hynny mewn ffordd sy'n diogelu safonau hylendid</p> <p>ii. Prynu pecynnau wedi eu paratoi neu drefnu i amlapio elfennau unigol</p> <p>iii. Diogelu elfennau symbolaidd ar gyfer y Gweinidog/ y person sydd wedi neilltuo</p>	<p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p>	<p>Bydd y sawl sydd â chyfrifoldeb dros baratoi'r Cymundeb yn gwneud hynny wedi golchi eu dwylo yn lân cyn cychwyn.</p> <p>Bydd y cwpanau gwin wedi eu gosod o flaen llaw yn y seddi priodol; bydd y bara yn cael ei rannu wrth y drws pan yn cofrestru drwy ddefnyddio 'tongs' a pob un i gadw ei ddarn bara mewn 'serviette' tan yr amser priodol yn y gwasaneth.</p> <p>Bydd y sawl sy'n paratoi'r elfennau yn cyd-lunio gyda'r Gweinidog.</p>
10.	Bedydd	<p>i. Sicrhau trefn i'r teulu eistedd mewn lleoliad fydd yn caniatáu iddynt agosáu at y sacrament yn ddiogel</p>	<p>✓</p>	<p>Gweler 3 (ii) uchod</p>

CAPEL SALEM, TREGANNA
19-08-2020



		<ul style="list-style-type: none"> ii. Sicrhau jwg a photel ddŵr i'r Gweinidog / y person sydd wedi ei neilltuo iii. 	✓		Byddwn yn archebu poteli dŵr unigol ar gyfer pob Gweinidog / Arweinydd
Cynnal digwyddiad awyr agored					
11.	Lleoliad	<ul style="list-style-type: none"> i. A yw'r digwyddiad i'w gynnal ar dir yr eglwys? ii. A yw'r digwyddiad i'w gynnal ar dir o eiddo rhywun arall? iii. Os ar dir o eiddo rhywun arall, a ydych wedi sicrhau caniatâd priodol? 			<p>Nid ydym yn bwriadu cynnal oedfaon yn yr awyr agored.</p> <p>Mae'n bosib bydd rhai achlysuron cymdeithasol yn cael eu cynnal mewn llefydd cyhoeddus, e.e. parc lleol. Bydd y grwpiau hynny yn cydymffurfio a'r gofynnion ynglyn a niferoedd a pellhau cymdeithasol.</p>
12.	Paratoi	<p>Yng Nghymru</p> <ul style="list-style-type: none"> i. Sicrhau fod yr ardal ar gyfer y digwyddiad wedi ei neilltuo, gyda stiwardiaid yn diogelu mynediad ii. Sicrhau trefniadau pellhau cymdeithasol o 2 fetr iii. Sicrhau trefniadau diogelu a diogelwch arferol a chaniatâd rhieni/gofalwyr lle bo hynny yn briodol 			Gweler 11. uchod.

CAPEL SALEM, TREGANNA
19-08-2020



Ymgwymerwyd yr asesiad risg gan Aled Wyn Phillips	Enw'r Eglwys Capel Salem
Rhan o'r adeilad a aseswyd Y Capel, Festri, Cwrt Blaen a Maes Parcio	Cyfeiriad: Market Road
	Treganna Caerdydd
	Cod Post CF5 1QE
Dyddiad Adolygu'r Asesiad 26-08-2020 Nia Roblin	Dyddiad yr Asesiad Cychwynnol 29-07-2020

CAPEL SALEM, TREGANNA
19-08-2020



Tebygolrwydd

- 1 = Isel (anaml)
- 2 = Canolig (yn aml)
- 3 = Uchel (pendant neu bron yn bendant)

Difrifoldeb

- 1 = Isel (mân-doriadau/ briwiau)
- 2 = Canolig (niwed difrifol / wedi analluogi am > 3 diwrnod)
- 3 = Uchel (marwolaeth neu nifer wedi'u hanafu'n ddifrifol)

Graddfa Risg

- 1-2 = blaenoriaeth isel
- 3-4 = blaenoriaeth canolig
- 5-6 = blaenoriaeth uchel

Peryglon/Risgiau <i>Meddylwch am y manau lle mae cyswllt yn digwydd</i>	Person a Effeithir <i>Meddylwch am unrhyw un fase'n debygol o fod mewn cysylltiad</i>	Tebygolrwydd	Difrifoldeb	Graddfa Risg	Rheolau Covid-9 ychwanegol – Lleihau Risg <i>Meddylwch pa newidiadau sy'n bosib ymhob senario i leihau lledaenu Covid-19</i> <i>*Os ydy'r adeilad yn restredig, mae gofyn i unrhyw newidiadau angenrheidiol fod yn sensitif a bod modd eu dadwneud; cysylltwch â Swyddog Cadwraeth am wybodaeth bellach.</i>	Cynllun Gweithredu <i>Beth sydd angen ei wneud a chan bwy?</i>
Cysylltiad agos ger mynedfeydd ac allanfeydd	Ymwelwyr	2	2	4	Cyflwyno system giwio, wedi'i ddiffinio'n glir yn allanol; gosod arwyddion yn cynghori'r angen i gadw pellter cymdeithasol o 2 fetr. Gosod decalau/ marciadau yn dynodi 2 fetr.	Arwyddion i gyflwyno sustem unffordd a mynediad drwy drws ffrynt yn unig (gyda dwy res ciwio o'r naill giat). Hysbysebu aelodau beth i'w ddisgwyl gan ofyn iddynt ddod mewn da bryd.
Cysylltiad agos oddi fewn i'r capel	Ymwelwyr	2	2	4	Defnyddio mynedfeydd ac allanfeydd ar wahân. Cyflwyno system unffordd yn fewnol, wedi'i marcio'n glir. Arwyddion wedi'u gosod yn cynghori cadw at bellter cymdeithasol o 2 fetr, marciadau ar y llawr. Cyfyngu mynediad i bob-yn-ail sedd/rhes o seddau.	Dyfeisio'r sustem unffordd - i mewn trwy'r ffrynt ac allan trwy'r Festri. Paratoi a gosod arwyddion. Cau rhai seddau.

CAPEL SALEM, TREGANNA
19-08-2020



Tebygolrwydd

- 1 = Isel (anaml)
2 = Canolig (yn aml)
3 = Uchel (pendant neu bron yn bendant)

Difrifoldeb

- 1 = Isel (mân-doriadau/ briwiau)
2 = Canolig (niwed difrifol / wedi analluogi am > 3 diwrnod)
3 = Uchel (marwolaeth neu nifer wedi'u hanafu'n ddifrifol)

Graddfa Risg

- 1-2 = blaenoriaeth isel
3-4 = blaenoriaeth canolig
5-6 = blaenoriaeth uchel

Peryglon/Risgiau <i>Meddylwch am y manau lle mae cyswllt yn digwydd</i>	Person a Effeithir <i>Meddylwch am unrhyw un fase'n debygol o fod mewn cysylltiad</i>	Tebygolrwydd	Difrifoldeb	Graddfa Risg	Rheolau Covid-9 ychwanegol – Lleihau Risg <i>Meddylwch pa newidiadau sy'n bosib ymhob senario i leihau lledaenu Covid-19</i> <i>*Os ydy'r adeilad yn restredig, mae gofyn i unrhyw newidiadau angenrheidiol fod yn sensitif a bod modd eu dadwneud; cysylltwch â Swyddog Cadwraeth am wybodaeth bellach.</i>	Cynllun Gweithredu <i>Beth sydd angen ei wneud a chan bwy?</i>
Gorlenwi	Ymwelwyr	2	2	4	Cyfyngu ar y nifer o bobl yn yr adeilad er mwyn sicrhau cadw ymbellhau cymdeithasol, un ai trwy system archebu	Cyflwyno system gofrestru drwy e-bost o flaen llaw fydd yn cael ei wirio gan y person dynodedig wrth i ymwelwyr gyrraedd yr adeilad.
Trosglwyddo'r feirws.	Ymwelwyr	1	1	2	Darparu gel gwrthfacterol ger pob mynedfa ac allanfa; defnydd gorfodol; arwyddion cynghori Glanhau'r adeilad cyn ei agor gyda phwyslais ar arwynebau sy'n cael eu cyffwrdd yn rheolaidd, megis seddau, dolenni drysau, switsys goleuadau. Symud llyfrau emynau, llyfrau a deunyddiau eraill neu gyfyngu'u defnydd. Cynghori pobl na chaiff deunydd ar gyfer addoli eu darparu, er y gallen nhw ddod â nhw i mewn a'u cymryd allan gyda nhw wedi gweddïo	Gel ar gael ger y brif fynedfa, allanfa a'r tai bach Dim ond oedfaon ar fore Sul fydd yn cael eu cynnal felly bydd cyfnod o 72 awr heb ddefnydd yn ymarferol i'w weithredu. Trefnir i'r capel gael ei lanhau'n wythnosol. Deunyddiau o'r fath yn cael eu storio yn Ystafell y Bobl Ifanc Bwriad i ddatblygu'r sgriniau teledu sydd eisoes yn eu lle.

CAPEL SALEM, TREGANNA
19-08-2020



Tebygolrwydd

- 1 = Isel (anaml)
- 2 = Canolig (yn aml)
- 3 = Uchel (pendant neu bron yn bendant)

Difrifoldeb

- 1 = Isel (mân-doriadau/ briwiau)
- 2 = Canolig (niwed difrifol / wedi analluogi am > 3 diwrnod)
- 3 = Uchel (marwolaeth neu nifer wedi'u hanafu'n ddifrifol)

Graddfa Risg

- 1-2 = blaenoriaeth isel
- 3-4 = blaenoriaeth canolig
- 5-6 = blaenoriaeth uchel

Peryglon/Risgiau <i>Meddylwch am y manau lle mae cyswllt yn digwydd</i>	Person a Effeithir <i>Meddylwch am unrhyw un fase'n debygol o fod mewn cysylltiad</i>	Tebygolrwydd	Difrifoldeb	Graddfa Risg	Rheolau Covid-9 ychwanegol – Lleihau Risg <i>Meddylwch pa newidiadau sy'n bosib ymhob senario i leihau lledaenu Covid-19</i> <i>*Os ydy'r adeilad yn restredig, mae gofyn i unrhyw newidiadau angenrheidiol fod yn sensitif a bod modd eu dadwneud; cysylltwch â Swyddog Cadwraeth am wybodaeth bellach.</i>	Cynllun Gweithredu <i>Beth sydd angen ei wneud a chan bwy?</i>
Pobl sy'n mynychu sydd â symptomau'r feirws	Ymwelwyr	2	3	6	<p>Stiwardiaid i'w briffio i ofyn i bobl os ydyn nhw'n credu fod ganddyn nhw symptomau ac, os felly, gwrthod yn barchus eu gadael i mewn.</p> <p>Arwyddion clir yn atgoffa pobl am symptomau Covid-19 a phwysigrwydd hunanynysu.</p> <p>Stiwardiaid drysau i wisgo masgiau</p> <p>Ymwybyddiaeth o'r camau cywir os bydd ymwelydd yn ym ddangos gyda symptomau.</p>	<p>Gohebu o flaen llaw gyda'r gynulleidfa drwy gyfryngau cymdeithasol a llythyr yn nodi peryglon. Copi o'r canllawiau gweithredu llawn hefyd i'w rhannu ar wefan Salem.</p> <p>Briffio'r stiwardiaid o'r canllawiau gan gynnwys gwisgo'n addas (masgiau, feisors, menig ayb).</p>